**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**3ydd Chwefror 2014**

**Y BROSES BENODI I SWYDD**
**PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL**

**Adroddiad gan Simon Smith, Y Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Hysbysu'r Aelodau am y trefniadau ar gyfer recriwtio i swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyo, un o'r ddwy swydd wag a ddisgwylir.

## Cefndir

2 Yn dilyn ymddeoliad y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Colin Hanks ar 31ain Mawrth 2012 gadawyd y swydd yn wag er mwyn cyfrannu tuag at y targed arbedion yn 2012-13. Lefel y cyfraniad oedd oddeutu £110,000.

3 Ar ôl cael cymeradwyaeth yr Awdurdod Tân ac Achub i recriwtio, ni lwyddodd y swydd i ddenu digon o ymgeiswyr â'r cymwysterau addas. Felly, ar ôl ailgyflunio gorchwylion y prif swyddogion penderfynwyd gwneud penodiad mewnol dros dro gan gychwyn ar 7 Mai 2013. Yn y cyfamser mae manylion y swydd wedi eu hadolygu.

4 Gan ddisgwyl ymddeoliad y Prif Swyddog Tân Paul Claydon ar 26ain Chwefror 2014, mae angen cynnal proses recriwtio i benodi i un o'r ddwy swydd wag.

## Y broses benodi

5 Yn unol â phob penodiad i'r uwch dîm rheoli, bydd y penodiad hwn yn un gan yr Aelodau. Bydd angen galw pwyllgor penodi â 6 aelod, yn cynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd a Swyddogion yr Awdurdod. Dyma'r rhai sydd wedi eu henwebu a'u cadarnhau ers y broses yn 2013:

Cadeirydd – Y Cyng. Meirick Lloyd Davies (Sir Ddinbych)
Dirprwy Gadeirydd – Y Cyng. Peter Lewis (Conwy) (y Cyng. Dewi Miles yn wreiddiol)
Y Cyng. Hilary McGuill (Sir y Fflint)
Y Cyng. Geoff Lowe (Wrecsam)
Y Cyng. Roy Owen (Gwynedd)
I'w gadarnhau (Ynys Môn)

6 Mae'r swydd wedi ei hysbysebu ar wefan Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) er mwyn denu ymgeiswyr â'r cymwysterau addas. Dan gyfarwyddyd blaenorol yr Awdurdod Tân ac Achub, caiff y swydd ei hysbysebu gyda'r disgwyliad y bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithredu ar lefel 'Rheolaeth Aur' a rheoli digwyddiadau'r ochr weithredol. Bydd gofyn i ymgeiswyr sydd heb gymhwyster 'Rheolaeth Aur' gyrraedd lefel pedwar mewn Rheoli Digwyddiadau o fewn cyfnod rhesymol.

7 Hefyd, bydd gofyn i ddeiliad y swydd fod â sgiliau lefel 3 yn y Gymraeg ar adeg eu penodi os ydynt yn ymgeiswyr mewnol. Ond os penodir ymgeisydd allanol, bydd gofyn i'r unigolyn hwnnw gyrraedd y lefel honno o fewn cyfnod penodol.

8 Bydd y broses ddethol yn golygu cyfweliad ffurfiol gyda'r Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Dirprwy Glerc. Bydd yr ymgeiswyr a fydd yn llwyddiannus yn y cam hwnnw o'r broses yn gwneud cyflwyniad ac yn cael eu cyfweld gan y Pwyllgor Penodi wedi hynny. Y bwriad yw y bydd unrhyw benodiad yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol wedi hynny gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 17eg Mawrth 2014.

## Yr amserlen arfaethedig

9 Gosod hysbyseb ar 17[eg] Ionawr 2014.
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd 5[ed] Chwefror 2014.
Llunio rhestr fer a gwahoddiadau i ddod i gyfweliad cychwynnol erbyn 10[fed] Chwefror 2014.
Cyfweliad gyda'r swyddogion 4[ydd] Mawrth 2014.
Cyfweliad gyda phanel yr Aelodau 5[ed] Mawrth 2014.
Cadarnhau'r penodiad yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 17[eg] Mawrth 2014.

## Argymhellion

10 Bod yr Aelodau'n:
(i) nodi'r broses fel yr amlinellir hi uchod;
(ii) cadarnhau aelodaeth y pwyllgor penodi.